Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# SUT RYDYM NI'N CWRDD Â GOFYNION CÔD RHEOLYDDION 2014

## Adran Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau

Mehefin 2019

www.mawwfire.gov.uk

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **3**

**Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** **4**

**Nod yr Adran Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau** **5**

**Amcanion** **5**

**Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer Cymru** **6**

**Côd Rheolyddion 2014** **7**

1. Dylai Rheolyddion gyflawni eu gweithgareddau mewn modd sy'n cynorthwyo'r rhai maent yn eu rheoleiddio i gydymffurfio a thyfu **8**
2. Dylai Rheolyddion ddarparu ffyrdd syml a gonest i ymgysylltu â'r rhai maent yn eu rheoleiddio a dylid gwrando ar eu barnau **12**
3. Dylai Rheolyddion selio eu gweithgareddau rheoleiddio ar risg **16**
4. Dylai Rheolyddion rannu gwybodaeth am gydymffurfio a risg **18**
5. Dylai Rheolyddion sicrhau bod gwybodaeth, cyfarwyddyd a chyngor clir ar gael i helpu'r rhai maent yn eu rheoleiddio i gwrdd â'u cyfrifoldebau i gydymffurfio **19**
6. Dylai Rheolyddion sicrhau bod eu hymagwedd at weithgareddau rheoleiddio yn dryloyw **22**

**Crynodeb o'r Camau Gweithredu i fynd i'r afael â nhw** **24**

**Adolygu'r Ddogfen** **25**

# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i leihau'r beichiau rheoleiddio a chefnogi twf busnesau sy'n cydymffurfio, trwy ddatblygu cydberthynas agored ac adeiladol rhwng y Rheolyddion a'r rhai maent yn eu rheoleiddio.

Yn Ebrill 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r gyfres gyntaf o flaenoriaethau gorfodi cenedlaethol ar gyfer Cymru, a baratowyd gan y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Lleol (sydd wedi cael ei ailenwi'n Swyddfa Rheoliadau Gwell (BRDO) erbyn hyn), mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, Rheolyddion cenedlaethol a chyrff proffesiynol a chynrychiolaidd. Mae'r Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer Cymru (NEP) yn rhoi cyfle pwysig i awdurdodau lleol a'u gwasanaethau rheoleiddio i ddangos y rôl hollbwysig maent yn ei chwarae wrth ddarparu diogelwch a llewyrch ar gyfer dinasyddion a busnesau ar lefel leol a chenedlaethol.

Ar y 6ed o Ebrill 2014, daeth y Côd Rheolyddion (y Côd) i rym yn statudol, yn unol â Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006, gan gymryd lle'r Côd Cydymffurfio Rheolyddion. Mae'n darparu fframwaith clir a hyblyg, yn seiliedig ar egwyddorion, ar sut ddylai Rheolyddion ymgysylltu â'r rhai maent yn eu rheoleiddio.

Mae angen i bron yr holl Reolyddion sydd heb fod yn economaidd, yn cynnwys awdurdodau lleol ac awdurdodau tân ac achub, i roi ystyriaeth i'r NEP a'r Côd wrth ddatblygu safonau, polisïau neu weithdrefnau sydd, naill ai'n tywys eu gweithgareddau rheoleiddio gyda busnes neu sy'n gymwys i Reolyddion eraill.

# Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn ymrwymedig i reoleiddio gwell a doethach, sy'n diogelu dinasyddion rhag niwed ac sy'n hybu twf busnesau. Ers 2013, rydym wedi cynrychioli'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru ar Fforwm Rheolyddion Cymru ac rydym yn gwbl gefnogol i'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol ar gyfer Cymru, yn enwedig blaenoriaethau 1 a 4, fel y nodir isod. Eisoes mae gennym bolisïau, gweithdrefnau a mecanweithiau yn eu lle, i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau rheoleiddio, yn cynnwys gorfodaeth gadarn ond teg, yn unol â phum egwyddor rheoleiddio da h.y. cymesuredd, atebolrwydd, cysondeb, eglurder a thargedu, sydd wedi eu cynnwys yn ein Polisi Gorfodi cyfredol.

Ysgrifennwyd y ddogfen hon 'Sut rydym yn cwrdd â gofynion Côd Rheolyddion 2014' i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol ar gyfer Cymru ac i gydymffurfio ag adran 6.3 o Gôd Rheolyddion 2014. Mae'n esbonio sut fydd Adran Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau (DRhTF) Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cwrdd â'i rwymedigaethau statudol i'r rhai hynny a reoleiddir, fel bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r gwasanaethau y gellir eu disgwyl a'u bod yn teimlo y gallant herio os nad yw'r gwasanaethau yma'n cael eu cyflenwi.

**Mae'r ddogfen hon yn adrodd am gynnydd a wnaed wrth gydymffurfio â'r Côd Rheolyddion ers cyhoeddi ein hadroddiad blaenorol (fersiwn-1) ym Mehefin 2014.**

# Nod yr Adran Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau

Nod Adran Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau (DRhTF) Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yw gwneud Canolbarth a Gorllewin Cymru yn lle mwy diogel i fyw, i weithio ac i ymweld ag ef, trwy leihau cymaint ag sy'n bosib ar risgiau a chostau cymdeithasol ac economaidd tanau a pheryglon eraill, heb osod beichiau diangen ar fusnesau. Mae sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddio cyfreithiol yn rhan bwysig o gyflawni'r nod hwn.

# Amcanion

Bydd ein Hadran Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau yn:

1. Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel, cost effeithiol a thryloyw ar gyfer pawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Chanolbarth a Gorllewin Cymru, er mwyn diogelu bywydau, eiddo a'r amgylchedd.
2. Gweithio gyda busnesau, cymunedau, sefydliadau partner a budd-ddeiliaid eraill, i hybu twf busnesau sy'n cydymffurfio.
3. Ymgymryd â dyletswyddau rheoleiddio, yn seiliedig ar flaenoriaethu'r risgiau sy'n hysbys.
4. Gwella ein gwasanaethau rheoleiddio yn barhaus, trwy addasu i'r gofynion a osodir arnom gan ddisgwyliadau newidiol cymdeithas.
5. Ymgymryd â gwasanaethau rheoleiddio gyda chysondeb, urddas a pharch at y bobl a wasanaethwn.

# Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer Cymru

Mae'r pedwar blaenoriaeth gorfodi cenedlaethol (a nodir isod) yn adlewyrchu egwyddorion sylfaenol 'Cymru'n Un'- gwasanaethau cyhoeddus atebol, sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Maent yn ceisio mynd i'r afael â'r risgiau a'r bygythiadau rheoleiddio a wynebir gan ddinasyddion yng Nghymru ac maent yn gwneud hynny trwy amlinellu'r canlyniadau mae awdurdodau lleol yn ymdrechu i'w cyflawni, gweithio gyda chynghorau eraill, asiantaethau partner, dinasyddion a busnesau. Fodd bynnag, mae gwahanolrwydd cymunedau Cymru yn golygu bydd amgylchiadau a blaenoriaethau lleol yn gofyn am wahanol ymagweddau mewn gwahanol leoedd. Bydd datrysiadau lleol arloesol, yn seiliedig ar wahaniaethau lleol, yn cyflawni'r amcanion pwysig yma yn genedlaethol, wedi eu teilwrio at anghenion lleol.

Mae'r blaenoriaethau gorfodi a ddewiswyd ar gyfer Cymru fel a ganlyn:

1. Diogelu unigolion rhag niwed a hybu gwella iechyd
2. Sicrhau diogelwch ac ansawdd y gadwyn fwyd, er mwyn lleihau risg i iechyd bodau dynol ac anifeiliaid
3. Hybu amgylchedd masnachu teg a chyfiawn ar gyfer dinasyddion a busnesau
4. Gwella'r amgylchedd lleol, er mwyn cael dylanwad positif ar ansawdd bywyd a hybu cynaladwyedd.

Mae'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol yma, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn adlewyrchu cyfraniad gwasanaethau rheoleiddio at flaenoriaethau cenedlaethol Cymru'n Un a'r Fframwaith Strategol; eu nod yw mynd i'r afael â risgiau rheoleiddio sy'n bodoli ledled y wlad; a hybu cydweithio i reoli risg a chyflenwi gwasanaethau cyd-drefnedig ar draws ffiniau'r awdurdodau lleol.

Mae'r blaenoriaethau'n traethu'r canlyniadau y dylai gwasanaethau rheoleiddio pob awdurdod lleol roi ystyriaeth iddynt wrth gynllunio a dyrannu adnoddau. Nid ydynt yn traethu'r gweithgareddau na'r offer y dylai gwasanaethau rheoleiddio eu defnyddio i gyfrannu at y canlyniadau yma. Mae'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol wedi eu cynllunio i roi ffocws i weithgareddau rheoleiddio lleol a chydweithio gyda chymdeithasau partner, sy'n cwrdd ag anghenion cenedlaethol gan ddefnyddio datrysiadau lleol.

# Côd Rheolyddion 2014

Bwriad Côd Rheolyddion 2014 yw annog Rheolyddion i gyflawni eu hamcanion mewn modd sy'n lleihau'r baich ar fusnesau. Pwrpas y Côd yw mewnosod ymagwedd risg seiliedig, cyfatebol, targedig a hyblyg at archwilio a gorfodi rheoleiddio ymhlith y Rheolyddion y mae'n gymwys iddynt. Bydd yr ymagwedd hon yn sicrhau bod Rheolyddion yn effeithiol ac yn effeithlon yn eu gwaith, heb osod beichiau diangen ar y rhai maent yn eu rheoleiddio. Mae'r Côd yn seiliedig ar y saith egwyddor archwilio a gorfodi a nodwyd yn Adroddiad Philip Hampton "Reducing administrative burdens: effective inspection and enforcement" (2005).

Mae'n **rhaid** i Reolyddion, y mae eu swyddogaethau wedi eu pennu yn unol ag adran 24(2) o'r ddeddf, i roi ystyriaeth i'r Côd wrth ddatblygu polisïau a gweithdrefnau gweithredol sy'n arwain eu gweithgareddau rheoleiddio. Mae'n rhaid i Reolyddion i roi ystyriaeth gydradd i'r Côd wrth osod safonau neu roi cyfarwyddyd, a fydd yn cyfarwyddo gweithgareddau rheoleiddio Rheolyddion eraill.

Os daw Rheolydd i'r casgliad, ar sail tystiolaeth berthnasol, bod un o ddarpariaethau penodol y Côd naill ai ddim yn gymwys neu ei fod wedi'i orbwyso gan ystyriaeth berthnasol arall, nid oes gorfodaeth ar y Rheolydd i ddilyn y ddarpariaeth honno, ond dylai gofnodi'r penderfyniad a'r rheswm dros y penderfyniad.

Mae gwybodaeth bellach a dolenni i gynnwys perthnasol ar-lein ar gael ar Wefan y Swyddfa Rheoliadau Gwell (BRDO) , sydd hefyd yn creu adnoddau i ategu'r Côd ac mae'n gweithio gyda sefydliadau i gynorthwyo i'w roi ar waith yn effeithiol.

## 1. Dylai Rheolyddion gyflawni eu gweithgareddau mewn modd sy’n cynorthwyo’r rhai maent yn eu rheoleiddio i gydymffurfio a thyfu.

**1.1 Dylai Rheolyddion osgoi gosod beichiau rheoleiddio diangen trwy eu gweithgareddau rheoleiddio a dylent asesu p’un ai gellir cyflawni canlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd tebyg trwy gyfrwng dulliau llai beichus. Dylai Rheolyddion ddewis ymagweddau cyfatebol i’r rhai maent yn eu rheoleiddio, yn seiliedig ar ffactorau perthnasol, yn cynnwys maint a gallu cynhyrchu busnes er enghraifft.**

### 1.1.1 Ymateb

Yn ystod chwarter cyntaf 2014 ac yn y cyfnod yn arwain i fyny at y 6ed o Ebrill, fe wnaethom gynnal nifer o sesiynau hyfforddi ar gyfer ein personél Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau, a oedd yn cynnwys:

- Cynllun Awdurdod Sylfaenol (PAS)
- Côd Rheolyddion 2014
- Offer Dadansoddi Anghenion Datblygu Rheolyddion (RDNA)
- Pwynt Gwybodaeth Cyfarwyddyd i Reolyddion (GRIP).

Yn ogystal, fe wnaethom gynnal sesiwn hyfforddi ymwybyddiaeth o fusnesau, gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gan:

- Siambr Fasnach De Cymru
- Swyddfa Rheoliadau Gwell
- Commerce Cymru

Nod cyffredinol y sesiynau arbennig yma oedd creu ymwybyddiaeth o’r sialensiau cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a statudol sy’n effeithio ar y rhai rydym yn eu rheoleiddio, ac i bwysleisio sut mae angen i ni roi mwy o ystyriaeth iddynt wrth wneud penderfyniadau, cyn gosod costau ariannol ar fusnesau.

Trwy gydol 2014, fe wnaethom ennyn ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, gwybodaeth a chyngor ychwanegol ar faterion yn ymwneud â rheoleiddio a busnes, trwy fynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau cenedlaethol, yn cynnwys Fforwm Rheolyddion Cymru, sydd wedi cael eu lledaenu’n briodol i bob un o’n personél gorfodi ni. Un o’r digwyddiadau mwyaf nodedig oedd y seminar a gynhaliwyd ar y cyd gan Safonau Masnach ac Awdurdod Sylfaenol y Swyddfa Rheoliadau Gwell, a gynhaliwyd yn Harrogate ar Orffennaf y 1af 2014, lle y gwnaethom ni ddysgu rhai o’r ymagweddau a gymerwyd wrth roi’r Cynllun Awdurdod Sylfaenol (PAS) ar waith, yn cynnwys y problemau a wynebwyd a sut yr aethpwyd i’r afael â nhw.

Erbyn hyn, mae ein personél DRhTF, sydd wedi cofrestru i gael mynediad at gofrestr genedlaethol PAS, yn derbyn e-fwletinau rheolaidd, sy’n cael eu cyhoeddi’n gyfnodol gan y Swyddfa Rheoliadau Gwell.

### 1.1.2 Camau Gweithredu

Byddwn yn parhau i:

1. Sicrhau bod newydd-ddyfodiaid i'r adran DRhTF yn mynychu'r sesiwn hyfforddi ymwybyddiaeth o fusnesau;
2. Ceisio darganfod a chyflenwi modd arall o hyfforddi personél DRhTF mewn ymwybyddiaeth o fusnesau.

---

**1.2 Wrth gynllunio ac adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion gweithredol, dylai Rheolyddion ystyried sut allent gefnogi neu alluogi twf economaidd busnesau sy'n cydymffurfio ac endidau eraill a reoleiddir, trwy ystyried y ffordd oriau o:**

- **Ddeall a lleihau effeithiau economaidd negyddol eu gweithgareddau rheoleiddio;**
- **Lleihau costau cydymffurfio i'r rhai maent yn eu rheoleiddio;**
- **Gwella hyder mewn cydymffurfio i'r rhai maent yn eu rheoleiddio, trwy roi mwy o sicrwydd; ac**
- **Annog a hybu cydymffurfio.**

### 1.2.1 Ymateb

Trafodwyd y mater hwn gyda chynrychiolwyr o'r Swyddfa Rheoliadau Gwell mewn cyfarfod o Grŵp Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau (BFSG) Cymru Gyfan yn Llandrindod ar yr 22ain o Fai 2014, ac yn dilyn y cyfarfod penderfynwyd:

1. Byddai'r 3 Gwasanaeth Tân yng Nghymru yn cynnal ymarfer i atgyfnerthu a/neu safoni (cyn belled ag sy'n rhesymol o ymarferol) yr holl bolisïau, gweithdrefnau a dogfennau DRhTF.
2. Bydd unrhyw bolisïau newydd / diwygiedig yn cael eu dosbarthu i 'gymuned fusnes' gytunedig a Rheolyddion eraill i ymgynghori yn eu cylch, cyn eu rhoi ar waith.
3. Mewn perthynas â'r uchod, byddai'r 'gymuned fusnes' yn cael ei henwi trwy gyfrwng Fforwm Rheolyddion Cymru.

### 1.2.2 Y Diweddaraf

Mewn ymateb i bwynt-1 uchod, sefydlwyd Grŵp Diogelwch Busnesau Cymru (BSG), i gynorthwyo wrth roi Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ar waith, ac i gynorthwyo'r sector busnes a'r Gwasanaethau Tân ac Achub gyda materion yn ymwneud â diogelwch rhag tân i fusnesau. Cytunodd y grŵp hwn ar amodau gorchwyl i gefnogi a symud 10 o ffrydiau gwaith yn eu blaenau, gyda phwyslais arbennig ar gydweithio ledled Cymru, a fydd yn:

- Cynorthwyo busnesau ledled Cymru, tra'n gwella diogelwch cymunedau a diffoddwyr tân yng Nghymru.
- Cefnogol i ffrydiau gwaith cenedlaethol

Mae'r 10 ffrwd gwaith fel a ganlyn:

1. Hyfforddi a Datblygu
2. Polisïau a Gweithdrefnau
3. Y Gyfraith a Chydymffurfio
4. Gofal
5. Tai Cymdeithasol
6. Rheoli Perfformiad
7. Cyswllt Busnes
8. Safonau Technegol
9. Digwyddiadau Awyr Agored
10. Ymchwilio i Dân

Mewn ymateb i bwyntiau 2 a 3, cafodd y cwestiwn 'pwy yw'r gymuned fusnes?' ei grybwyll yn Fforwm Rheolyddion Cymru ar y 5ed o Fehefin, a ph'un ai dylai Rheolyddion gwahanol fod yn canolbwyntio ar wahanol grwpiau.  Esboniodd Kate Fletcher (BRDO) bod "y Côd yn gymwys ar draws amrywiaeth o Reolyddion, felly, roedd angen iddo fod yn addasadwy i wahanol amgylchiadau.  Gwaith y Rheolyddion yw ei gymryd fel fframwaith a holi sut all weithio orau iddyn nhw".

#### 1.2.3 Camau Gweithredu

Oherwydd yr ymateb, gofynnodd Grŵp Diogelwch Busnesau Cymru i'r gweithgor Cyswllt Busnes i gysylltu â'r sefydliadau canlynol, i ganfod eu parodrwydd i gydweithredu wrth ymgynghori ar bolisi, fel sy'n ofynnol gan y Côd:

- CBI Cymru;
- Siambr Fasnach De Cymru;
- Commerce Cymru.

---

### 1.3 Dylai Rheolyddion sicrhau bod gan eu swyddogion yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gynorthwyo'r rhai maent yn eu rheoleiddio, yn cynnwys bod â dealltwriaeth o'r rhai maent yn eu rheoleiddio, sy'n eu galluogi nhw i ddewis ymagweddau cymesur ac effeithiol.

#### 1.3.1 Ymateb

Rydym yn darparu hyfforddiant a datblygiad cynhwysfawr ar gyfer ein personél DRhTF, yn unol â'r 'Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Rheolyddion Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau,' a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CFOA).  Caiff ein cyrsiau hyfforddi eu hasesu a'u dilysu'n fewnol ac yn allanol, gyda chymwysterau'n cael eu hachredu i safonau cenedlaethol gan 'SGILIAU er CYFIAWNDER' h.y.

- Lefel-3 Tystysgrif mewn Diogelwch Rhag Tân
- Lefel-4 Tystysgrif mewn Diogelwch Rhag Tân

- Lefel-4 Diploma mewn Diogelwch Rhag Tân

(Cyflwynir y cymwysterau yma gan ein darparwr hyfforddiant diogelwch rhag tân presennol - XACT Training)

Cefnogir yr hyfforddiant gan ofynion mandadol i fynychu cyfarfodydd mewnol penodol a dyddiau hyfforddi, wedi eu cyfuno gyda diweddariadau rheolaidd ar bynciau trwy gyfrwng e-byst mewnol a gohebiaeth dros y we.

Fel y soniwyd eisoes, trwy gydol 2014, fe wnaethom ennyn ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, gwybodaeth a chyngor ychwanegol ar faterion yn ymwneud â rheoleiddio a busnes, trwy fynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau cenedlaethol, yn cynnwys Fforwm Rheolyddion Cymru, sydd wedi cael ei ledaenu'n briodol i bob un o'n personél gorfodi ni.

---

**1.4 Dylai Rheolyddion sicrhau bod eu swyddogion yn deall egwyddorion statudol rheoleiddio da a'r Côd hwn, a sut mae'r Rheolydd yn cyflawni ei weithgareddau yn unol â nhw.**

**1.4.1 Ymateb**

Yn ystod chwarter cyntaf 2014 ac yn y cyfnod yn arwain i fyny at y 6ed o Ebrill, fe wnaethom gynnal nifer o sesiynau hyfforddi ar gyfer ein personél Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau, a oedd yn cynnwys gofynion cyffredinol y Côd, a darparwyd copi o'r Côd ar gyfer y cynrychiolwyr, er dibenion hunan-astudio. Yn ogystal, fe'u darparwyd â gwybodaeth am ein gwefan ni'n hunain a gwefan y Swyddfa Rheoliadau Gwell.

Trwy gydol 2014, fe amlygodd nifer o faterion a oedd yn gofyn i ni ystyried goblygiadau'r Côd, ac mae rhai ohonynt wedi achosi i ni adolygu a mynd i'r afael â'r polisïau a'r gweithdrefnau presennol e.e. diwygiad i'n polisi cwynion ni, a gafodd ei gyfleu'n briodol i bersonél DRhTF a'i hybu trwy gyfrwng ein gwefan allanol.

Rhwng yr 28ain a'r 30ain o Dachwedd 2014, fe wnaeth ein Cwnsler Cyfreithiol (David Stotesbury) gyflwyno hyfforddiant a gontractiwyd i bob un o'n personél DRhTF ni, a oedd yn cynnwys sesiwn ar y Côd. Rhoddwyd trosolwg i'r mynychwyr o'r materion amlwg, yn ogystal â chyfle i holi cwestiynau.

Yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2014, aethom ar ymweliadau monitro perfformiad i bob un o'n 7 adran DRhTF yn ein Hardaloedd Rheoli. Pwrpas yr ymweliadau monitro perfformiad oedd:

1) Gwerthuso perfformiad unigolion a thimau;
2) Sicrhau bod personél yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio;
3) Darganfod ac ymdrin â meysydd o wendid;

4) Darganfod a rhannu meysydd o arfer da;
5) Darganfod modd o gyflawni gwelliannau parhaus.

Fe wnaethom ddefnyddio'r ymweliadau i brofi gwybodaeth a dealltwriaeth rhai o'r personél DRhTF am ymarferoldeb y Cynllun Awdurdod Sylfaenol o safbwynt busnesau, a chafodd y canlyniadau eu cynnwys mewn adroddiad mewnol.

## 2. Regulators should provide simple and straightforward ways to engage with those they regulate and hear their views.

**2.1 Dylai fod gan Reolyddion fecanweithiau yn eu lle i ymgysylltu â'r rhai maent yn eu rheoleiddio, dinasyddion ac eraill, i gynnig barnau a chyfrannu at ddatblygu eu polisïau a'r safonau gwasanaeth. Cyn newid polisïau, ymarferion neu safonau gwasanaeth, dylai Rheolyddion ystyried yr effaith ar fusnesau a dylid ymgysylltu â chynrychiolwyr busnesau.**

### 2.1.1 Ymateb

Yn unol â phwynt 1.2.1 uchod; trafodwyd y mater hwn gyda chynrychiolwyr o'r Swyddfa Rheoliadau Gwell, mewn cyfarfod o Grŵp Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau Cymru Gyfan (BFSG) yn Llandrindod ar yr 22ain o Fai 2014, a hefyd cafodd y cwestiwn 'pwy yw'r gymuned fusnes?' ei gyfeirio at Fforwm Rheolyddion Cymru ar y 5ed o Fehefin 2014. Esboniodd Kate Fletcher (BRDO) bod "y Côd yn gymwys ar draws amrywiaeth o Reolyddion, felly, roedd angen iddo fod yn addasadwy i wahanol amgylchiadau. Gwaith y Rheolyddion yw ei gymryd fel fframwaith a holi sut all weithio orau iddyn nhw".

### 2.1.2 Camau Gweithredu

Oherwydd yr ymateb hwn, gofynnodd Grŵp Diogelwch Busnesau Cymru i'r gweithgor Cyswllt Busnes i gysylltu â'r sefydliadau canlynol, i ganfod eu parodrwydd i gydweithredu wrth ymgynghori ar bolisi, fel sy'n ofynnol gan y Côd:

- CBI Cymru;
- Siambr Fasnach De Cymru;
- Commerce Cymru.

Fodd bynnag, mewn ymateb i'r gofyniad trosfwaol i ddarparu 'ffyrdd syml a gonest i ymgysylltu gyda'r rhai rydym yn eu rheoleiddio ac i wrando ar eu barnau', y canlynol yw'r moddau a'r dulliau presennol:

- Mae'r Gwasanaeth yn cynnig adran 'Cysylltu â Ni' ar y wefan allanol;
- Rydym yn anfon e-bost, yn cynnwys arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid, yn dilyn arolygiadau ac archwiliadau o adeiladau busnes, ac mae'r canlyniadau'n cael eu harddangos yn yr adran 'Gwybodaeth Diogelu Rhag Tân' ar ein gwefan allanol;

- Yn Awst 2014, fe wnaethom lansio tudalen Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau ar Facebook. Mae'r dudalen yn ein galluogi i gyfleu nifer o negeseuon pynciol, delweddau, clipiau fideo, dolenni i wefannau eraill ac, yn bwysig iawn, mae'n fecanwaith i dderbyn cwestiynau ac atborth oddi wrth bartïon sydd â diddordeb.

---

**2.2 Wrth ymateb i unrhyw ddiffyg cydymffurfio a nodwyd ganddynt, dylai Rheolyddion esbonio'n glir natur yr eitem neu weithgarwch nad sy'n cydymffurfio, y cyngor a roddir, y camau gweithredu sy'n ofynnol neu'r penderfyniadau a wnaed, a'r rhesymau dros y rhain. Dylai Rheolyddion roi cyfle i drafod mewn perthynas â'r cyngor, gofynion neu benderfyniadau, gyda golwg ar sicrhau eu bod yn ymddwyn mewn ffordd sy'n gymesur ac yn gyson.**

**Nid yw'r paragraff yn gymwys lle bod y Rheolydd yn medru dangos bod camau gorfodi di-oed yn ofynnol i atal, neu i ymateb i dorri'r Côd yn ddifrifol, neu lle byddai rhoddi'r fath gyfle'n debygol o drechu pwrpas y camau gorfodi arfaethedig.**

### 2.2.1 Ymateb

Mae ein personél DRhTF yn gwbl ymrwymedig i helpu busnesau i ddeall peryglon tân a sut i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, sy'n cynnwys egluro'n llawn natur yr eitem neu'r gweithgarwch nad sy'n cydymffurfio, a rhoi cyngor priodol ar sut i fynd i'r afael â'r materion hynny. Fodd bynnag, os nad yw busnes yn fodlon gyda'n gwasanaeth, mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn cynnwys prosesau cyfreithiol i ymdrin â materion o ddiffyg cydymffurfio, gyda phroses apelio i'r Llysoedd a/neu Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r broses apelio wedi'i chrynhoi yn 2.3.1 isod.

---

**2.3 Dylai Rheolyddion ddarparu llwybr diduedd ac wedi'i esbonio'n glir i apelio yn erbyn penderfyniad rheoleiddio neu fethiant i weithredu yn unol â'r Côd hwn. Ni ddylai swyddogion unigol o'r Rheolydd a wnaeth y penderfyniad, neu a gymerodd y camau y mae'r apêl yn seiliedig arnynt, fod yn gysylltiedig wrth ystyried yr apêl. Dylid gwneud y llwybr hwn i apelio yn hysbys i'r rhai a reoleiddir.**

### 2.3.1 Ymateb

Mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn cynnwys prosesau cyfreithiol i ymdrin â materion o ddiffyg cydymffurfio, gyda phroses apelio i'r Llysoedd a/neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae Erthygl 35 o'r Gorchymyn yn darparu i apeliadau i gael eu gwneud yn erbyn yr hysbysiadau a gyflwynwyd yn unol â'r Gorchymyn. Dyma'r effaith mae gwneud apêl yn ei gael ar yr amrywiol hysbysiadau. Gellir apelio o fewn 21 diwrnod i'r hysbysiad i gael ei gyflwyno er, i ryw raddau, bydded apêl yn cael ei dderbyn ai peidio, mae yn ôl doethineb y llys. Gellir rhoi ystyriaeth i lwfansiau ar gyfer tâl post. Ar gyfer hysbysiadau newidiadau a

gorfodi, mae'r ffaith fod apêl yn cael ei wneud yn gohirio'r hysbysiad. Ble nad yw hysbysiad yn cael ei dynnu'n ôl, mae'n rhaid i apêl i gael ei glywed a'i hepgor gan y Llys (ynadon). Nid oes modd i'r awdurdod gorfodi i dynnu apeliadau yn erbyn hysbysiadau gorfodi yn ôl, os yw diwedd y cyfnod a bennwyd yn yr hysbysiad wedi darfod h.y. os rhoddwyd yr isafswm cyfnod i waith cywirol i gael ei wneud, ni ellir tynnu'r hysbysiad yn ôl wedi 28 diwrnod. Ar y llaw arall, nid yw apeliadau a wnaed yn erbyn hysbysiadau gwahardd yn gohirio'r hysbysiad, oni bai fod y llys yn gorchymyn hynny. Ble fod apêl yn cael ei glywed a bod penderfyniad y llys yn anfoddhaol i'r apelydd neu'r parti awdurdod gorfodi, gall y naill apelio i Lys y Goron.

Mae Erthygl 36 o'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer dwyn unrhyw anghydfod i benderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol; fodd bynnag, mae'n rhaid cwrdd â nifer o amodau. Bydd methiant i gwrdd ag unrhyw un o'r amodau canlynol yn arwydd nad yw'r anghydfod yn addas ar gyfer penderfyniad. Yr amodau ar gyfer dwyn anghydfod yw:

1. Mae'n rhaid i'r person cyfrifol neu ddeiliad dyletswydd erthygl 5(3) i gytuno gyda'r awdurdod gorfodi eu bod wedi methu cydymffurfio â gofynion y Gorchymyn;
2. Mae anghytuno rhwng y ddwy ochr o ran y ffordd orau i gywiro'r methiant; a
3. Mae'r ddwy ochr yn cytuno i wneud y mater yn anghydfod.
4. Mae'r anghydfodau wedi cael eu clywed yn unol â'r Gorchymyn ac maent yn dueddol o gynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol, sydd angen gwybodaeth oddi wrth ddwy ochr yr anghydfod ac mae'n gosod cyfnodau byr iawn o gydymffurfio wrth y galwadau hynny am fwy o wybodaeth. Ble nad yw'r naill ochr yn cwrdd â'r galwadau am wybodaeth, mae'n bosib bydd y penderfyniad yn methu.

Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi derbyn yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gyda'r cyfnodau a bennwyd, mae unrhyw benderfyniad a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn orfodol ar y ddwy ochr ac, yn arbennig, ni all yr awdurdod gorfodi gymryd camau gorfodi sy'n groes i'r penderfyniad a wnaed.

---

## 2.4 Dylai Rheolyddion roi esboniad amserol, ar bapur, o unrhyw hawl i gynrychiolaeth neu hawl i apelio. Dylai'r esboniad hwn fod mewn iaith glir a dylai gynnwys gwybodaeth ymarferol ar y broses dan sylw.

### 2.4.1 Ymateb

Fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, rydym yn rhoi esboniad, ar bapur, o'r hawl i apelio a'r broses, pryd bynnag ein bod yn cyflwyno hysbysiad cyfreithiol h.y. PACE Code-B, hysbysiadau Newidiadau, Gorfodi, neu Wahardd.

**2.5 Dylai Rheolyddion sicrhau bod gweithdrefnau cwyno, wedi eu hesbonio'n glir, ar gael ar gyfer y rhai maent yn eu rheoleiddio, gan eu galluogi nhw i wneud cwyn yn hawdd am ymddygiad Rheolydd.**

### 2.5.1 Ymateb

Mae gennym ddisgwyliadau mawr o'n holl staff, yn enwedig wrth ymdrin â'r rhai rydym yn eu rheoleiddio. Rydym yn gobeithio eu bod yn meddwl ein bod ni'n gyfeillgar, yn hygyrch ac yn gymwys, a hoffem wybod pan fod pobl wedi derbyn gwasanaeth eithriadol o dda. Fodd bynnag, weithiau mae pethau'n medru mynd o chwith, a buasem yn annog pobl i roi gwybod i ni pan allai pethau wedi bod yn well. Gellir canmol a chwyno trwy gyfrwng y wefan allanol neu ar e-bost, dros y ffôn neu drwy'r post.

Trwy gydol 2014, fe amlygodd nifer o faterion a oedd yn gofyn i ni ystyried goblygiadau'r Côd, ac mae rhai ohonynt wedi achosi i ni adolygu a mynd i'r afael â'r polisïau a'r gweithdrefnau presennol e.e. diwygiad i'n polisi cwynion ni, a gafodd ei gyfleu'n briodol i bersonél DRhTF a'i hybu trwy gyfrwng ein gwefan allanol.

### 2.5.2 Camau Gweithredu

Er ein bod yn cofnodi ein camau gweithredu wedi i ni ymchwilio i gwynion, ar hyn o bryd, nid ydym yn cadw cofrestr ganolog, fodd bynnag, mae'r mater hwn wedi cael ei ymdrin, a bydd cofrestr newydd yn cael ei lansio erbyn diwedd mis Ionawr 2015.

---

**2.6 Dylai fod gan Reolyddion amrywiaeth o fecanweithiau i alluogi a gwahodd yn rheolaidd, derbyn ac ystyried atborth cwsmeriaid, yn cynnwys arolygon o fodlonrwydd cwsmeriaid y rhai maent yn rheoleiddio, er enghraifft.**

### 2.6.1 Ymateb

Credwn ei bod yn hanfodol i werthuso effeithiolrwydd ein harchwiliadau Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau, yn unol â'n hamcanion, yn cynnwys gwelliannau parhaus i ddarparu gwasanaethau.

1. Yn dilyn ymweliad i adeilad busnes, byddwn yn gwahodd rheolwyr adeiladau i gwblhau holiadur ar-lein, yn cynnwys elfennau o'r ymweliad diogelwch rhag tân a gynhaliwyd gennym, yn cynnwys pa mor brydlon a chwrtais oedd ein Swyddogion, beth a gwmpaswyd yn ystod yr ymweliad, pa gyngor ar ddiogelwch rhag tân a roddwyd, pa mor addysgiadol oedd yr ymweliad, sut gafodd unrhyw argymhellion eu dilyn i fyny, pa gamau gorfodi a gymerwyd, os o gwbl ayb. Yn ogystal, gellir mesur effeithiolrwydd yr Archwiliad Diogelwch Rhag Tân yn ôl lefel y risg, cyn ac wedi'r Archwiliad Diogelwch Rhag Tân. Caiff yr holl ymatebion eu coladu gan y system feddalwedd sy'n trawsnewid data i mewn i adroddiad i'w werthuso gan y Pennaeth Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau ac yna'i gyhoeddi (heb ei olygu) ar y wefan allanol.

2. Rydym yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau, ac rydym yn annog aelodau o'r gymuned i gyflwyno eu barnau ar sut fedrwn ni wella'r Gwasanaeth a ddarparwn.  Gellir eu cyflwyno ar y wefan allanol neu ar e-bost, dros y ffôn neu trwy'r post.
3. Yn Awst 2014, fe wnaethom lansio tudalen Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau ar Facebook. Mae'r dudalen yn ein galluogi i gyfleu nifer o negeseuon pynciol, delweddau, clipiau fideo, dolenni i wefannau eraill ac, yn bwysig iawn, mae'n fecanwaith i dderbyn cwestiynau ac atborth oddi wrth bartïon sydd â diddordeb.

## 3. Dylai Rheolyddion selio eu gweithgareddau rheoleiddio ar risg

**3.1 Dylai Rheolyddion ddilyn ymagwedd seiliedig ar dystiolaeth wrth benderfynu ar y risgiau sy'n cael blaenoriaeth yn eu maes cyfrifoldeb, a dylent ddyrannu adnoddau lle byddent fwyaf effeithiol, er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau hynny sy'n cael blaenoriaeth.**

### 3.1.1 Ymateb

Rydym yn defnyddio system feddalwedd o'r enw CFRMIS (System Gwybodaeth Rheoli Risgiau Tân Cymunedol), wedi'i chyfuno gyda gwybodaeth leol personél DRhTF, i reoli rhaglen o archwiliadau diogelwch rhag tân.  Mae'r system archwilio diogelwch rhag tân yn CFRMIS yn darparu'r Gwasanaeth â'r offer i sicrhau bod adeiladau annomestig yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelwch tân, gan dargedu pa adeiladau i'w harchwilio yn seiliedig ar broffiliau risg, a chan gynnal yr archwiliadau hynny, gweithgareddau cysylltiedig, a rheoli'r rhaglenni archwilio ac ail-archwilio'n effeithlon.

### 3.1.2 Camau Gweithredu

Ers rhan olaf 2013, rydym wedi bod yn gweithio gyda datblygwyr meddalwedd CFRMIS (CIVICA) i uwchraddio'i restr o 'Address Point' i'r Rhestr Tir ac Eiddo Genedlaethol (NLPG). Mae'r prosiect wedi bod yn eithriadol o heriol ac yn llawn problemau, fodd bynnag, ym mis Tachwedd 2014 o'r diwedd fe wnaethom ni lwyddo i newid.  Bydd cam nesaf y prosiect yn golygu bydd ein personél DRhTF yn treillio trwy'r gronfa ddata ddiweddaredig â llaw, er mwyn cael gwared ar adeiladau diangen h.y. adeiladau gyda chofnodion dyblyg / triphlyg neu adeiladau nad sydd angen eu cofnodi e.e. corlannau defaid ayb.  Rydym yn rhagweld y byddwn wedi cwblhau'r ymarfer ymarferol hwn erbyn diwedd Chwefror 2015, yn barod ar gyfer y flwyddyn ariannol ac archwilio newydd, sy'n cychwyn ar y 1af o Ebrill.  Canlyniad net y gwaith hwn yw y byddwn yn meddu ar gronfa ddata a fydd bron yn 100% yn gywir, o'r holl adeiladau busnes yn ardal y Gwasanaeth, bydd gan bob adeilad rif cyfeirnod adeilad unigryw (UPRN) wedi'i gysylltu i'r NLPG, a bydd pob adeilad wedi cael eu categoreiddio'n gywir yn unol â system gyfeirnodi Llywodraeth Cymru.  Hefyd, byddwn yn gwybod yn union faint o adeiladau busnes sydd yn ardal ein Gwasanaeth a phryd ddylen nhw gael eu harchwilio nesaf.

**3.2 Dylai Rheolyddion ystyried risg ym mhob cam o'u prosesau gwneud penderfyniadau, yn cynnwys dewis y math o ymyrraeth neu'r ffordd fwyaf effeithiol o weithio gyda'r rhai a reoleiddir; gan dargedu gwiriadau at gydymffurfio; ac wrth gymryd camau gorfodi.**

**3.2.1 Response**

Mae gennym amrywiaeth eang o ymyriadau at ein gwasanaeth, i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gorchymyn ac i sicrhau ymateb cymesur mewn perthynas â diffyg cydymffurfio. Gall Swyddogion DRhTF gynnig gwybodaeth a chyngor i unigolion, busnesau ac ymrwymiadau eraill yn bersonol, ar bapur trwy lythyr neu ar e-bost, neu dros y ffôn. Gall hyn gynnwys rhybudd eu bod, ym marn y swyddog, ym methu cydymffurfio â'r gyfraith. Lle y bo'n briodol, mae'n bosib byddwn yn:

1. Cytuno ar gynllun gweithredu,
2. Darparu hysbysiad am adroddiad diffygion neu'n cyflwyno hysbysiad gorfodi,
3. Gwahardd neu gyfyngu ar ddefnydd o'r adeilad,
4. Rhoi rhybudd o'r bwriad i erlyn,
5. Neu unrhyw gyfuniad o'r uchod

Mae hysbysiadau gorfodi, hysbysiadau gwahardd ac erlyniadau yn ffyrdd pwysig i ddod ag unigolion, busnesau neu ymrwymiadau eraill i gyfrif am achosion honedig o dorri'r gyfraith. Lle y bo'n briodol i wneud hynny ac yn unol â'n Polisi Gorfodi, bydd y Gwasanaeth yn defnyddio un neu fwy o'r mesurau yma i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith diogelwch tân.

**3.3 Dylai Rheolyddion sy'n paratoi fframwaith asesu risgiau, at eu defnydd nhw neu at ddefnydd pobl eraill, fod â mecanweithiau yn eu lle i ymgynghori â'r rhai a effeithir ynghylch ei gynnwys, a dylid ei adolygu'n rheolaidd.**

**3.3.1 Ymateb**

Yn ein hadroddiad blaenorol, fe wnaethom ysgrifennu "Rydym yn ansicr at bwy mae'r gofyniad hwn yn cyfeirio h.y. Rheolyddion cenedlaethol neu leol". Yn absenoldeb unrhyw ganllawiau cenedlaethol, rydym yn ystyried y byddai ein hymateb i 3.1 uchod yn bodloni'r gofyniad hwn.

**3.4 Dylai Rheolyddion, wrth gynnal eu hasesiad risgiau, gydnabod cofnod cydymffurfio'r rhai maent yn eu rheoleiddio, yn cynnwys defnyddio ymagweddau cydnabyddiaeth a enillir, a dylent ystyried yr holl ddata perthnasol sydd ar gael ar gydymffurfiaeth, yn cynnwys tystiolaeth o wiriadau allanol perthnasol.**

**3.4.1 Ymateb**

Mae'r system archwiliadau diogelwch rhag tân yn CFRMIS yn darparu'r Gwasanaeth â'r

offer i sicrhau bod adeiladau annomestig yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelwch tân, gan dargedu pa adeiladau i'w harchwilio yn seiliedig ar broffiliau risg, cynnal yr archwiliadau hynny a gweithgareddau perthynol a rheoli rhaglenni archwilio ac ail-archwilio yn effeithlon. Mae gan bersonél DRhTF yr ymreolaeth i roi ystyriaeth ddyledus i hanes o gydymffurfio ac agwedd at reoli, a gallant 'ddiystyru' y dyddiadau awgrymedig ar gyfer ail-archwiliadau a gynhyrchwyd gan y CFRMIS.

---

**3.5 Dylai Rheolyddion adolygu effeithiolrwydd eu gweithgareddau rheoleiddio a ddewiswyd wrth gyflawni'r canlyniadau a ddymunir, a dylent wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol gan hynny.**

**3.5.1 Ymateb**

Mae'r ymateb hwn yn ymwneud hefyd â 3.2.1 uchod.

1. Os fyddwn yn cyflwyno hysbysiad diffygion, yna, yn dibynnu ar natur y broblem, mae'n bosib byddwn yn ail-ymweld â'r adeilad yn ddiweddarach, i sicrhau bod camau wedi cael eu cymryd. Gall methiant i ymdrin â materion penodol arwain at gynnydd yn ein pwerau gorfodi.
2. Os fyddwn yn cytuno ar gynllun gweithredu yna byddwn yn ail-ymweld â'r adeilad yn ddiweddarach, i sicrhau bod yr holl gamau wedi cael eu cymryd. Gall methiant i ymdrin â materion penodol arwain at gynnydd yn ein pwerau gorfodi.
3. Os fyddwn yn cyflwyno hysbysiad gorfodi yna byddwn yn ail-ymweld â'r adeilad yn ddiweddarach, i wirio'r cynnydd a wnaed neu i sicrhau bod yr holl gamau wedi cael eu cymryd. Gall methiant i ymdrin â materion penodol arwain at gynnydd yn ein pwerau gorfodi.
4. Os fyddwn yn gwahardd neu'n cyfyngu ar ddefnydd o'r adeilad, yna byddwn yn ail-ymweld â'r adeilad yn ddiweddarach, i wirio'r cynnydd a wnaed neu i sicrhau bod yr holl gamau wedi cael eu cymryd, neu i sicrhau nad yw'r Hysbysiad wedi cael ei dorri. Gall methiant i ymdrin â materion penodol arwain at gynnydd yn ein pwerau gorfodi.
5. Os bydd yr adeilad yn methu ymdrin â phwyntiau 2-4, yna mae'n bosib byddwn yn rhoi rhybudd o'n bwriad i erlyn.
6. Mae'n bosib byddwn yn ystyried unrhyw gyfuniad o'r uchod.

## 4. Dylai Rheolyddion rannu gwybodaeth am gydymffurfio a risg

**4.1 Ar y cyd, dylai Rheolyddion ddilyn yr egwyddor "casglu unwaith, defnyddio droeon" wrth geisio gwybodaeth oddi wrth y rhai maent yn eu rheoleiddio.**

**4.1.1 Ymateb**

- Defnyddir y CFRMIS (System Gwybodaeth Rheoli Risgiau Tân Cymunedol) i fwyhau lleihau risg a chynyddu cynhyrchiant, trwy reoli a thargedu adnoddau diogelwch rhag tân yn well.

- Mae'r CFRMIS yn galluogi'r Gwasanaeth i leihau risg i aelodau o'r cyhoedd a chriwiau tân gweithredol, gan reoli gweithgareddau archwilio a lleihau risg yn well gyda deallusrwydd gweithredol, tra'n mwyhau effeithlonrwydd y gwasanaethau gweithredol a ddarperir.
- Mae'r CFRMIS yn galluogi i ddata archwilio safleoedd, yn cynnwys archwiliadau diogelwch rhag tân, asesiadau risgiau tân yn y cartref a deallusrwydd gweithredol i gael eu casglu a'u llwytho i fyny'n awtomatig i'r gronfa ddata ganolog, integredig.  Gall gwybodaeth o'r gronfa ddata gael ei gyflwyno mewn amrywiol fformatau a'i rannu gan hynny.

**4.2 Lle bo'r gyfraith yn caniatáu, dylai Rheolyddion gytuno ar fecanweithiau diogel i rannu gwybodaeth gyda'i gilydd am y busnesau a'r cyrff eraill maent yn eu rheoleiddio, er mwyn helpu i dargedu adnoddau a gweithgareddau a lleihau unrhyw ailadrodd.**

**4.2.1 Ymateb**

Mae'r mater hwn yn cael ei ymdrin trwy gyfrwng Fforwm Rheolyddion Cymru.

## 5. Regulators should ensure clear information, guidance and advice is available to help those they regulate meet their responsibilities to comply

**5.1 Dylai Rheolyddion roi cyngor a chyfarwyddyd sydd wedi'u ffocysu ar helpu'r rhai maent yn eu rheoleiddio i ddeall a chwrdd â'u cyfrifoldebau.  Wrth roi cyngor a chyfarwyddyd, dylid gwahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol ac arferion da awgrymedig, a dylid rhoi ystyriaeth i effaith y cyngor neu'r cyfarwyddyd, fel nad yw'n gosod beichiau diangen ynddo'i hun.**

**5.1.1 Ymateb**

Mae'r Gwasanaeth yn cefnogi'r egwyddor bod "atal yn well na gwella", a byddwn yn anelu at sicrhau cydymffurfiaeth, osgoi biwrocratiaeth a chostau gormodol, a byddwn yn ceisio gweithio gyda'r gymuned fusnes ac annog cynnydd economaidd, trwy gynnig gwybodaeth a chyngor i'r rhai rydym yn eu rheoleiddio.

1. Mae'r Adran DRhTF yn cyhoeddi amrywiaeth eang o wybodaeth ar ddiogelwch rhag tân ar ei wefan allanol ac mae'n croesawu ymholiadau ar e-bost a dros y ffôn.
2. Mae gwybodaeth yn cael ei gyhoeddi ar y wefan allanol yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda chyfleuster 'BrowseAloud' ar gyfer y rhai hynny sydd angen cymorth i ddarllen ar-lein.
3. Nid yw'r Gwasanaeth yn paratoi deddfwriaeth diogelwch tân na chodau ymarfer, ond mae'n cyhoeddi deunydd darllen gan ffynonellau cymeradwy e.e. Llywodraeth EM, Llywodraeth Cymru ayb.

4. Daw'r datganiad canlynol o'n Polisi Gorfodi (tud-5) cyfredol: "Ble bod endid a reoleiddir yn ceisio cyngor neu gyfarwyddyd oddi wrth yr Awdurdod, neu ei swyddogion, am y camau sydd angen eu cymryd i gywiro diffygion diogelwch rhag tân neu, fel arall, i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith, ni fydd hyn yn arwain yn awtomatig at weithredu gorfodi ffurfiol gan yr Awdurdod. Fodd bynnag, os bydd camau gorfodi'n angenrheidiol yn amgylchiadau'r achos, fe fydd yn seiliedig ar egwyddorion, disgwyliadau a methodoleg y Model Rheoli Gorfodaeth (EMM), a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), yr ystyrir i fod yn arfer gorau cenedlaethol, a'r Côd ar gyfer Erlynyddion y Goron, a gyhoeddwyd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus."
5. Byddai'n well gan y Gwasanaeth i gynghori a thywys yn hytrach na chymryd camau gorfodi h.y. cyflwyno hysbysiadau neu erlyn, ond mae'n rhaid iddo gadw'r hawl i weithredu er lles y cyhoedd, yn unol ag amgylchiadau'r achos.
6. Mae ein personél DRhTF yn eithaf cyfarwydd erbyn hyn â disgwyliadau'r Cynllun Awdurdod Sylfaenol ac mae gan bob un ohonynt fynediad at gofrestr genedlaethol PAS. Os digwydd bod angen i ni archwilio adeilad sy'n rhan o PAS, yna cydymffurfir â phob cyfraith a gofyniad.

---

**5.2 Dylai Rheolyddion gyhoeddi canllawiau a gwybodaeth mewn fformat clir, hygyrch a chryno, gan ddefnyddio cyfrwng addas i'r gynulleidfa darged, a dylid eu hysgrifennu mewn iaith glir i'r gynulleidfa.**

### 5.2.1 Ymateb

- Rydym yn darparu adran "Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau" ar ein gwefannau mewnol ac allanol, sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i'r darllenwyr a ragwelir. Mae'r wefan allanol wedi ei rhannu i nifer o adrannau allweddol, sy'n rhoi cyngor a chanllawiau i'r cyhoedd ar amrywiol bynciau, yn enwedig beth sydd angen i Bersonau Cyfrifol i'w wneud i gydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth diogelwch tân cyfredol, a phynciau perthynol eraill, ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer pob un o adrannau DRhTF yr Ardaloedd Rheoli.
- Fel y soniwyd eisoes, yn Awst 2014, fe wnaethom lansio tudalen Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau ar Facebook. Mae'r dudalen hon yn ein galluogi ni i gyfleu nifer o negeseuon pynciol, clipiau fideo, dolenni i wefannau eraill ac, yn bwysig iawn, mae'n fecanwaith i dderbyn cwestiynau ac atborth oddi wrth bartïon â diddordeb.

---

**5.3 Dylai fod gan Reolyddion fecanweithiau yn eu lle i ymgynghori â'r rhai maent yn eu rheoleiddio, mewn perthynas â'r canllawiau maent yn eu paratoi, er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd â'u hanghenion.**

### 5.3.1 Ymateb

Mae'r ymateb i 1.2 yn cynnwys y gofyniad hwn.

**5.4 Dylai Rheolyddion geisio creu amgylchedd lle mae gan y rhai maent yn eu rheoleiddio hyder yn y cyngor maent yn ei dderbyn a'u bod yn teimlo y gallant geisio cyngor heb ofni sbarduno camau gorfodi.**

**5.4.1 Ymateb**

Ymdriniwyd â'r mater hwn yn yr ymateb i 5.1.1(4) uchod.

**5.5 Wrth ymateb i geisiadau am gyngor, yr hyn ddylai fod o'r pwys mwyaf i'r Rheolydd yw darparu'r cyngor angenrheidiol i gynorthwyo'r rhai a reoleiddir i gydymffurfio, ac i sicrhau y gellir dibynnu ar y cyngor.**

**5.5.1 Ymateb**

Ymdriniwyd â'r mater hwn yn yr ymateb i 5.1.1(4), (5) a (6) uchod.

**5.6 Dylai fod gan Reolyddion fecanweithiau i weithio ar y cyd i gynorthwyo'r rhai a reoleiddir gan fwy nag un Rheolydd. Dylai Rheolyddion ystyried y cyngor a roddir gan Reolyddion eraill a, ble bod anghytuno ynghylch y cyngor a roddwyd; dylid trafod y mater gyda'r Rheolydd arall er mwyn dod i gytundeb.**

**5.6.1 Ymateb**

Mae yna ddau fater i ymdrin â nhw.

1. Fel y nodwyd yn 1.1.1 uchod, rydym wedi rhoi hyfforddiant i'r holl bersonél DRhTF ar roi'r Cynllun Awdurdod Sylfaenol ar waith; felly maent yn ymwybodol, os oes anghytuno, yna mae'r Swyddfa Rheoliadau Gwell yn darparu protocol y cytunwyd arno'n genedlaethol y mae'n rhaid iddynt ei ddilyn.
2. Rydym yn cydweithio gyda nifer o gyrff sy'n cael eu rheoleiddio gan fwy nag un Rheolydd. Enghraifft nodedig yw Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn ein cyfathrach gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (ABMU), oherwydd mae rhai o'u hysbytai ac adeiladau eraill yn cael eu rheoleiddio gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru hefyd. Er mwyn hwyluso'r trefniadau gweithio, rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion perthynol i ddiogelwch rhag tân, megis signalau tân diangen, materion yn ymwneud â gorfodi, gwaith adeiladu newydd ayb.

## 6. Dylai Rheolyddion sicrhau bod eu hymagwedd at eu gweithgareddau rheoleiddio yn dryloyw

**6.1 Dylai Rheolyddion gyhoeddi cyfres o safonau gwasanaeth clir, gan draethu beth ddylai'r rhai maent yn eu rheoleiddio ei ddisgwyl oddi wrthynt.**

### 6.1.1 Ymateb

Trafodwyd y mater hwn gyda chynrychiolwyr o'r Swyddfa Rheoliadau gwell, mewn cyfarfod o Grŵp Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau (BFSG) Cymru Gyfan yn Llandrindod ar yr 22ain o Fai 2014.

### 6.1.2 Camau Gweithredu

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wrthi'n drafftio cyfres o safonau gwasanaeth clir ac, unwaith y cytunir arnynt, byddant yn cael eu mabwysiadu gan y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru.

---

**6.2 Dylai safonau gwasanaeth cyhoeddedig Rheolyddion gynnwys gwybodaeth glir ar:**

1. **Sut maent yn cyfathrebu gyda'r rhai maent yn eu rheoleiddio a sut ellir cysylltu â nhw;**
2. **Eu hymagwedd at ddarparu gwybodaeth, cyfarwyddyd a chyngor;**
3. **Eu hymagwedd at wirio cydymffurfiaeth, yn cynnwys manylion am y fframwaith asesu risgiau a ddefnyddiwyd i dargedu'r gwiriadau hynny, yn ogystal â phrotocolau ar gyfer eu hymddygiad, gan draethu'n glir beth ddylai'r rhai maent yn eu rheoleiddio ei ddisgwyl;**
4. **Eu polisi gorfodi, gan esbonio sut maent yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio;**
5. **Eu ffioedd a'u prisiau, os yn gymwys. Dylai'r wybodaeth yma esbonio'n glir ar ba sail mae'r rhain yn cael eu cyfrif, a dylent gynnwys esboniad p'un ai bydd cydymffurfio'n effeithio ar y ffioedd a'r prisiau; a**
6. **Sut i gynnig sylwadau neu gwyno am y gwasanaeth a ddarparwyd a llwybrau i apelio.**

### 6.2.1 Ymateb

Fel y nodwyd yn 6.1.1 uchod, trafodwyd y mater hwn gyda chynrychiolwyr o'r Swyddfa Rheoliadau Gwell, mewn cyfarfod o Grŵp Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau (BFSG) Cymru Gyfan yn Llandrindod ar yr 22ain o Fai 2014.

#### 6.2.2 Camau Gweithredu

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wrthi'n drafftio cyfres o safonau gwasanaeth clir ac, unwaith y cytunir arnynt, byddant yn cael eu mabwysiadu gan y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru.

---

### 6.3 Dylai gwybodaeth sy'n cael ei gyhoeddi i gwrdd â darpariaethau'r Côd hwn fod yn hygyrch, yn cynnwys bod ar gael mewn pwynt unigol ar wefan y Rheolydd gydag arwyddion clir, a dylid ei gadw'n gyfoes.

#### 6.3.1 Ymateb

Cyn paratoi fersiwn-1 o'r ddogfen hon, fe wnaethom gyhoeddi adran newydd ar ein gwefan allanol, er mwyn dangos ein hymrwymiad at gydymffurfio â'r Côd.  Byddwn yn cyhoeddi dogfennau diweddaredig fel Fersiwn - 2, 3, 4 ayb., yn cynnwys y mis a'r flwyddyn y cyhoeddwyd ef, ynghyd â datganiad rheoli fersiwn, fel y gall y darllenydd gyfeirio'n hawdd at y diwygiadau.

---

### 6.4 Dylai fod gan Reolyddion fecanweithiau yn eu lle i sicrhau bod eu swyddogion yn gweithredu yn unol â'u safonau gwasanaeth cyhoeddedig, yn cynnwys eu polisi gorfodi.

#### 6.4.1 Ymateb

Wedi i'r gwaith y soniwyd amdano mewn ymateb i 6.1 uchod, sy'n cael ei wneud gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, i gael ei orffen, byddwn yn hyfforddi ein personél DRhTF, er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn gweithredu yn unol â'r safonau gwasanaeth cytunedig.

---

### 6.5 Dylai Rheolyddion gyhoeddi manylion am eu perfformiad yn unol â'u safonau gwasanaeth, yn rheolaidd, yn cynnwys atborth a dderbyniwyd oddi wrth y rhai maent yn eu rheoleiddio, megis arolygon o fodlonrwydd cwsmeriaid, data'n ymwneud â chwynion amdanynt ac apeliadau yn erbyn eu penderfyniadau.

#### 6.5.1 Ymateb

Rydym ni eisoes yn cyhoeddi adroddiadau ar atborth cwsmeriaid ar ein gwefan allanol, ond bydd perfformiad yn unol â chwynion a safonau gwasanaeth yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y cytunir ar safonau gwasanaeth ac y bydd trefniadau mesur perfformiad yn eu lle.

# Crynodeb o’r Camau Gweithredu i fynd i’r afael â nhw

**1.1.2**
Fe fyddwn yn parhau i:

1. Sicrhau bod newydd-ddyfodiaid i’r adran DRhTF yn mynychu’r sesiwn hyfforddi ymwybyddiaeth o fusnesau;
2. Ceisio darganfod a chyflenwi modd arall o hyfforddi personél DRhTF mewn ymwybyddiaeth o fusnesau.

**1.2.3 & 2.1.2**
Bydd y gweithgor Cyswllt Busnes yn cysylltu â’r sefydliadau canlynol i ganfod eu parodrwydd i gydweithredu wrth ymgynghori ar bolisi, fel sy’n ofynnol gan y Côd:

- CBI Cymru;
- Siambr Fasnach De Cymru;
- Commerce Cymru.

**2.5.2**
Er ein bod ni’n cofnodi ein camau wedi ymchwilio i gwynion, ar hyn o bryd, nid ydym yn cadw cofrestr ganolog, fodd bynnag, ymdriniwyd â’r mater hwn a bydd cofrestr newydd yn cael ei lansio erbyn diwedd Ionawr 2015.

**3.1.2**
Ers rhan olaf 2013, rydym wedi bod yn gweithio gyda datblygwyr meddalwedd CFRMIS (CIVICA) i uwchraddio’i restr o ‘Address Point’ i’r Rhestr Tir ac Eiddo Genedlaethol (NLPG). Mae’r prosiect wedi bod yn eithriadol o heriol ac yn llawn problemau, fodd bynnag, ym mis Tachwedd 2014 o’r diwedd fe wnaethom ni lwyddo i newid. Bydd cam nesaf y prosiect yn golygu bydd ein personél DRhTF yn treillio trwy’r gronfa ddata ddiweddaredig â llaw, er mwyn cael gwared ar adeiladau diangen h.y. adeiladau gyda chofnodion dyblyg / triphlyg neu adeiladau nad sydd angen eu cofnodi e.e. corlannau defaid ayb. Rydym yn rhagweld y byddwn wedi cwblhau’r ymarfer ymarferol hwn erbyn diwedd Chwefror 2015, yn barod ar gyfer y flwyddyn ariannol ac archwilio newydd sy’n cychwyn ar y 1af o Ebrill. Canlyniad net y gwaith hwn yw y byddwn yn meddu ar gronfa ddata a fydd bron yn 100% yn gywir, o’r holl adeiladau busnes yn ardal y Gwasanaeth, bydd gan bob adeilad rif cyfeirnod adeilad unigryw (UPRN), wedi’i gysylltu i’r NLPG, a bydd pob adeilad wedi cael eu categoreiddio’n gywir, yn unol â system gyfeirnodi Llywodraeth Cymru. Hefyd, byddwn yn gwybod yn union faint o adeiladau busnes sydd yn ardal ein Gwasanaeth a phryd ddylen nhw gael eu harchwilio nesaf.

**6.1.2 & 6.2.2**
Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wrthi'n drafftio cyfres o safonau gwasanaeth clir ac, unwaith y cytunir arnynt, byddant yn cael eu mabwysiadu gan y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru.

**6.4.1**
Wedi i'r gwaith y soniwyd amdano mewn ymateb i 6.1 uchod, sy'n cael ei wneud gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, i gael ei orffen, byddwn yn hyfforddi ein personél DRhTF, er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn gweithredu yn unol â'r safonau gwasanaeth cytunedig.

**6.5.1**
Rydym ni eisoes yn cyhoeddi adroddiadau ar atborth cwsmeriaid ar ein gwefan allanol, ond bydd gwybodaeth am berfformiad yn unol â chwynion a safonau gwasanaeth yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y cytunir ar safonau gwasanaeth ac y bydd trefniadau mesur perfformiad yn eu lle.

## Adolygu'r Ddogfen

Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu:
1. O leiaf bob blwyddyn, neu
2. Wedi derbyn gwybodaeth newydd
3. Byddwn yn cyhoeddi iteriadau diwygiedig fel Fersiwn-2, 3, 4 ayb., yn cynnwys y mis a'r flwyddyn y cyhoeddwyd ef, ynghyd â datganiad rheoli fersiwn, fel y gall y darllenydd gyfeirio'n hawdd at y diwygiadau.

**Diogelwch Tân Busnes**
Business Fire Safety